Adolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau: trosolwg a chamau nesaf

Y llynedd, gofynnodd Cymwysterau Cymru (ni) i Wavehill Ltd mewn partneriaeth â Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain gynnal adolygiad o gynllun a model asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau a'i lle o fewn fframwaith Bagloriaeth Cymru.

Mae'r adolygiad yn dod i'r casgliad bod Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ateb diben gwerthfawr i helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau sy'n fuddiol i'w dyfodol. Mae'n gryf o blaid cadw'r Dystysgrif Her Sgiliau a'i datblygu ymhellach drwy adeiladu ar ei chryfderau a'i gwneud yn llai cymhleth.

Rydym wedi cyhoeddi'r adroddiad ymchwil llawn a'r crynodeb gweithredol ar ein gwefan.

Isod, rydym yn rhoi trosolwg bras o'r rhesymau pam y gwnaethom gomisiynu'r ymchwil, canfyddiadau'r ymchwil a sut y byddwn yn ystyried ac yn ymateb i'w hargymhellion.

1. Cefndir yr adolygiad

Cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru gyntaf yn 2007, ar ôl cyfnod peilot. Yn 2012, gwnaeth *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru*[1] Llywodraeth Cymru argymhell newidiadau i'w chynllun, gan arwain at gyflwyno fframwaith Bagoriaeth Cymru newydd ym mis Medi 2015.

Yn flaenorol, dim ond rhai ysgolion a cholegau oedd yn cynnig Bagloriaeth Cymru. Pan gafodd Bagloriaeth newydd Cymru ei lansio, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl i bob ysgol a choleg ei chynnig.

Mae Bagloriaeth newydd Cymru wedi'i chynllunio o gwmpas cymhwyster newydd, sef y Dystysgrif Her Sgiliau. I ennill Bagloriaeth Cymru, mae'n rhaid i fyfyrwyr ennill y Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â chymwysterau ategol. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn canolbwyntio ar y sgiliau craidd[2] sydd eu hangen ar fyfyrwyr i lwyddo yn eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Er mwyn addysgu'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae angen set wahanol o sgiliau i'r rhai sydd eu hangen i addysgu pynciau eraill, mwy traddodiadol. O ganlyniad, mae cyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau wedi arwain at newid sylweddol yn ymarfer rhai ysgolion a cholegau.

Ym mis Mawrth 2016, yn fuan ar ôl sefydlu Cymwysterau Cymru, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y ffordd y cafodd y Dystysgrif Her Sgiliau ei chyflwyno, gan ganolbwyntio ar y trefniadau a oedd ar waith i gefnogi'r broses o'i chyflwyno[3]. Er y gallai'r broses o gyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau fod wedi bod yn well, gwelsom fod y gefnogaeth a'r adnoddau a oedd eu hangen i'w chyflwyno ar gael. Yn y tymor hwy,

[1] http://gov.wales/docs/dcells/publications/121127reviewofqualificationscy.pdf
[2] Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn datblygu ac yn asesu'r sgiliau canlynol: llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd ac effeithiolrwydd personol.
[3] http://qualificationswales.org/media/1630/adolygiad-cc-or-fagloriaeth-cymru-newydd-230316.pdf

2. Yr hyn a gafodd ei ystyried gan yr adolygiad

Y nod cyffredinol oedd cael darlun clir o gynllun arfaethedig y Dystysgrif Her Sgiliau a'r ffordd y mae'n gweithio'n ymarferol. I gyflawni hyn, cynhaliwyd yr ymchwil hon mewn dau gam. Gwnaeth y cam cyntaf ddadansoddi cynllun y Dystysgrif Her Sgiliau yn feirniadol. Roedd hwn yn adolygiad desg o'r prif ddogfennau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau[4], a oedd yn ystyried nodau, strwythur, cynnwys a dulliau asesu a graddio'r Dystysgrif Her Sgiliau yn fanwl. Roedd yr ail gam yn gyfres o drafodaethau â sampl eang o fyfyrwyr a staff addysgu o bob rhan o Gymru ynghylch eu profiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau newydd a Bagloriaeth newydd Cymru.

Mae'r adolygiad yn sail dystiolaeth ddefnyddiol o ran cynllun y Dystysgrif Her Sgiliau a'r ffordd y cafodd ei chyflwyno. Fel gydag unrhyw ymchwil, mae angen cadw rhai pwyntiau pwysig mewn cof wrth ystyried y canfyddiadau. Ar gyfer yr adolygiad hwn, rydym wedi cadw'r cyfyngiadau canlynol mewn cof o'r cychwyn.

- Dim ond dogfennau cyhoeddedig sy'n cefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau a gafodd eu hystyried fel rhan o'r adolygiad desg.
- Fel rhan o'r adolygiad, ceisiwyd safbwyntiau sampl gynrychioliadol o fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau ac athrawon sy'n ei chyflwyno, nid pob myfyriwr ac athro/athrawes.
- Ni cheisiwyd safbwyntiau cyflogwyr na sefydliadau addysg uwch fel rhan o'r adolygiad.
- Holwyd myfyrwyr ac athrawon am eu profiad o Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn unig. Ni thrafodwyd cymwysterau eraill. Nid yw'n bosibl dweud a yw'r safbwyntiau a drafodwyd yn unigryw i'r Dystysgrif Her Sgiliau, a ydynt yn nodweddiadol o gymwysterau eraill y mae myfyrwyr yn astudio fel arfer, neu sut maent yn cymharu â phrofiadau o gymwysterau eraill a ailgynlluniwyd yn ddiweddar.
- Cafodd yr ymchwil ei gwneud yn gynnar iawn ar ôl cyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth newydd Cymru. Dyfarnwyd cymwysterau Ôl-16 y Dystysgrif Her Sgiliau[5] am y tro cyntaf yn 2016. Dyfarnwyd cymwysterau CA4[6] ac Uwch[7] y Dystysgrif Her Sgiliau gyntaf yn ystod haf 2017.

[4]manylebau rhaglenni, llawlyfrau cyflwyno, egwyddorion cynllunio, y llawlyfr gweinyddu a'r cod ymarfer.
[5]Cymwysterau y gwnaeth myfyrwyr Ôl-16 astudio ar eu cyfer ar yr un pryd â chymwysterau eraill ar Lefelau 1 a 2, ac a gafodd eu cyflwyno mewn un flwyddyn academaidd.
[6]Cymwysterau y gwnaeth myfyrwyr astudio ar eu cyfer ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 ochr yn ochr â chymwysterau TGAU a chymwysterau tebyg eraill, ac a gafodd eu cyflwyno dros ddwy flwyddyn academaidd.
[7]Cymwysterau y gwnaeth myfyrwyr astudio ar eu cyfer ochr yn ochr â chymwysterau Safon Uwch a chymwysterau Lefel 3 eraill, ac a gafodd eu cyflwyno dros ddwy flwyddyn academaidd.

3. Prif ganfyddiadau'r adolygiad

Er ei fod yn nodi y gallai fod yn fuddiol datblygu rhai agweddau ar y Dystysgrif Her Sgiliau ymhellach, mae'r adolygiad yn dod i'r casgliad bod cryfderau a manteision y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn eu cyfanrwydd yn glir.

Nod Bagloriaeth Cymru yw cynnig cwricwlwm eang a chyflawn i fyfyrwyr a sicrhau bod ganddynt y cymwysterau, y profiadau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i astudio a dilyn gyrfa yn y dyfodol. Y sgiliau a'r priodweddau sy'n cael eu datblygu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau yw'r rhai sydd eu hangen ar bobl ifanc i lwyddo yn y gweithle, yn ôl cyflogwyr. Mae'r adolygiad yn dangos bod y diben hwn sydd wedi'i ddiffinio'n glir yn un o gryfderau cynllun Bagloriaeth Cymru. Mae'n disgrifio'r Dystysgrif Her Sgiliau fel cymhwyster arloesol, sy'n seiliedig ar egwyddorion perthnasol iawn. Egwyddorion sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau bywyd o fewn cyd-destunau dilys a datblygu eu diddordebau drwy ddewis pynciau astudio sy'n berthnasol i'w hastudiaethau a'u cynlluniau gyrfa yn y dyfodol.

Cadarnhaodd trafodaethau ag ymarferwyr fod cryn gefnogaeth i ddiben ac amcanion Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau ymhlith y rhai sy'n addysgu. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ennill ei phlwyf wrth i ysgolion a cholegau addasu, ymgorffori a mireinio'r ffordd y maent yn ei chyflwyno. Mae'r adolygiad yn dangos hefyd bod lefel anghyson o ddealltwriaeth o'r Dystysgrif Her Sgiliau a'i pherthynas â Bagloriaeth Cymru ymhlith myfyrwyr ac athrawon. Nododd rhai athrawon hefyd eu bod yn ei chael hi'n anodd esbonio'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru i fyfyrwyr, athrawon eraill a rhieni.

Mae'r adolygiad ei hun yn cydnabod y bydd gwerthusiad manwl a beirniadol o gynllun unrhyw gymhwyster bron bob amser yn dod o hyd i rai meysydd i'w gwella, yn enwedig pan fo cymhwyster yr un mor arloesol a newydd â'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Er ei fod yn nodi pa mor gryf yw diben ac egwyddorion y Dystysgrif Her Sgiliau, mae'r adolygiad yn dangos bod ei chynllun yn fwy cymhleth nag sydd ei angen. Mae ailadrodd a gorgyffwrdd rhwng pedair elfen pob Tystysgrif Her Sgiliau, sy'n lleihau'r budd sy'n deillio o astudio pob un ohonynt. Mae rhywfaint o orgyffwrdd hefyd rhwng cymwysterau gwahanol y Dystysgrif Her Sgiliau ar lefel CA4, Ôl-16 ac uwch.

Mae'r adolygiad yn nodi y gellir symleiddio agweddau penodol ar fodel asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae natur gymhleth y model presennol yn golygu y gall gymryd cyfnod anghymesur o amser i asesu sgiliau, o gymharu â'r amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau hynny. Mae i ba raddau y caiff sgiliau gwahanol[8] eu hasesu yn amrywio hefyd, gyda rhai'n cael eu gorasesu.

[8]Llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd ac effeithiolrwydd personol.

4. Ein hymateb i'r argymhellion

Mae'r adroddiad yn gofyn i ni ystyried wyth argymhelliad penodol i wella cynllun y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagoriaeth Cymru ymhellach. Yn fras, gellir rhannu'r argymhellion yn grwpiau sy'n ymdrin â'r canlynol:

- Sut i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu hystyried yn eu cyd-destun ac yn llawn ac y gweithredir arnynt drwy gynllunio ac ymgysylltu'n ofalus;
- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru, gan sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth amdanynt a bod y wybodaeth honno'n gywir ac yn gyfredol;
- Yr angen am hyfforddiant parhaus i helpu i gyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau'n llwyddiannus;
- Newidiadau posibl i fireinio cynllun y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru a'r broses o'u hasesu a'u dyfarnu.

Argymhelliad 1: gweithredu ar yr argymhellion

Mae'r argymhelliad cyntaf, sy'n adlewyrchu'r hyn a ddywedodd athrawon a myfyrwyr, yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn ofalus a'u cyfleu'n glir o'r cychwyn.

Rydym yn cytuno y dylid ystyried unrhyw newidiadau yn y dyfodol i gynllun y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru a'r broses o'u cyflwyno yn eu cyd-destun ac yn llawn. Byddwn yn esbonio ac yn profi unrhyw gynigion gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pryd a sut i wneud newidiadau a pha gymorth y bydd ei angen arnynt.

Byddwn yn sefydlu gweithgor i helpu i ddatblygu ac ystyried cynigion i newid, ar sail argymhellion yr adroddiad. Bydd y gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CBAC, Estyn a'r consortia addysg rhanbarthol, yn ogystal ag arbenigwyr cymwysterau ac asesu annibynnol.

Yn ogystal â'r gweithgor, byddwn yn gwahodd panel o randdeiliaid i helpu i brofi a mireinio cynigion y gweithgor. Bydd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, colegau a phrifysgolion yn ogystal â chyflogwyr, athrawon a myfyrwyr.

Argymhellion 2 a 3: gwella gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth

Mae argymhelliad 2 yn canolbwyntio ar yr angen am wybodaeth glir, cyson a hygyrch am Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau, sydd wedi'i theilwra ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, gan gynnwys myfyrwyr a'u teuluoedd, tra bod argymhelliad 3 yn gofyn i ni helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru, yn enwedig mewn ysgolion a cholegau.

Rydym yn cytuno â'r argymhellion hyn. Rydym hefyd am wella ymwybyddiaeth prifysgolion a chyflogwyr o'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru. Rydym eisoes yn ymgysylltu â phrifysgolion ynglŷn â chymwysterau y mae dysgwyr yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer, ac mae CBAC wedi cymryd camau i wneud gwybodaeth sydd ar gael ar-lein am Fagloriaeth Cymru yn fwy clir, yn ogystal â'i diweddaru.

Drwy'r gweithgor, byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r wybodaeth sydd eisoes ar gael ac yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu cyfleu'n glir. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn helpu myfyrwyr ac athrawon i esbonio a hyrwyddo Bagloriaeth Cymru i eraill.

Argymhellion 4 a 5: hyfforddiant a chymorth

O ystyried natur benodol y Dystysgrif Her Sgiliau, mae'n naturiol y bydd athrawon yn treulio amser yn ymgyfarwyddo â ffordd newydd a gwahanol o addysgu ac asesu. Yn wahanol i bynciau traddodiadol megis mathemateg, hanes neu gerddoriaeth, nid yw athrawon yn cael hyfforddiant o'r cychwyn i addysgu'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'r adroddiad yn argymell buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus a datblygu rhaglen o hyfforddiant a chymorth parhaus i staff sy'n rhan o'r broses o gyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae hefyd yn gofyn a allai hyfforddiant cychwynnol i athrawon helpu i baratoi athrawon yn y dyfodol ar gyfer datblygu ac asesu'r sgiliau sydd wedi'u cynnwys yn y Dystysgrif Her Sgiliau.

Mae hyfforddiant a chymorth ar gael eisoes i'r rhai sy'n rhan o'r broses o gyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau, drwy CBAC a'r consortia addysg rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn dangos nad yw llawer o staff addysgu yn ymwybodol o'r cymorth sydd ei angen arnynt, neu nad ydynt bob amser yn gallu cael gafael ar y cymorth hwnnw. Byddwn yn gweithio gyda CBAC, Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau bod mwy o hyfforddiant ar gael, ac yn ystyried sut y gall staff o bob ysgol a choleg gael gafael ar hyfforddiant.

Argymhellion 6, 7 ac 8: ystyried newidiadau posibl er mwyn gwella cynllun y cymhwyster a'r broses o'i asesu a'i ddyfarnu

Mae argymhellion 6, 7 ac 8 yn gofyn i ni ystyried ffyrdd posibl o adolygu cynllun y Dystysgrif Her Sgiliau a'r broses o'i hasesu. Mae rhai awgrymiadau manwl yn cael eu gwneud, gan gynnwys:

- symleiddio'r cynllun presennol;
- dileu elfennau ailadroddus i'w gwneud yn fwy hydrin ei rheoli;
- lleihau cynnwys, lle y bo'n briodol;
- cynyddu nifer y cyfleoedd i asesu sgiliau llythrennedd digidol;
- manteisio'n fwy ar gryfderau'r prosiect unigol.

Unwaith eto, mae'r awduron yn cynghori y dylid ystyried unrhyw newidiadau a'u goblygiadau'n drylwyr, a'u hategu gan ddulliau cyfathrebu a hyfforddiant sy'n amserol ac yn effeithiol.

Byddwn yn gofyn i'r gweithgor ystyried yr argymhellion, y cyfleoedd i wneud gwelliannau a phryd y gallent gael eu cyflwyno. Wrth ystyried unrhyw newidiadau, byddwn yn cadw'r cyd-destun addysg ehangach mewn cof.

Un pwynt pwysig i'w ystyried gan y gweithgor fydd potensial unrhyw newidiadau i helpu i gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau eisoes yn cyd-fynd â phedwar diben sylfaenol[9] y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu.

Er ei fod y tu allan i gwmpas yr ymchwil, gwnaeth polisi Llywodraeth Cymru y dylai Bagloriaeth Cymru gael ei mabwysiadu ym mhob ysgol godi mewn sawl un o drafodaethau'r ymchwilwyr ag athrawon a myfyrwyr. Ymddengys y byddai athrawon a myfyrwyr yn croesawu mwy o eglurder ynghylch disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n cynnig ac yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Byddai hyn yn ddefnyddiol i ni hefyd, wrth i ni ystyried sut i weithredu ar argymhellion yr ymchwil orau.

[9]Y pedwar yw: (1) Dysgwyr uchelgeisiol, galluog (2) Cyfranwyr mentrus, creadigol (3) Dinasyddion egwyddorol, gwybodus (4) Unigolion iach, hyderus.

5. Y camau nesaf

Ein prif orchwyl fydd dod â'r gweithgor ynghyd ar gyfer cyfarfod a'i roi ar ben y ffordd i ddatblygu syniadau ar gyfer cynigion sy'n seiliedig ar argymhellion yr ymchwil. Yn y cyfamser, byddwn yn trafod gyda Llywodraeth Cymru a CBAC unrhyw gamau y gellir eu cymryd yn syth i gefnogi argymhellion 2, 3, 4 a 5 i wella gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod mwy o hyfforddiant ar gael.

Ym mis Tachwedd 2018, byddwn yn rhoi gwybod pa gynnydd rydym wedi'i wneud. Erbyn hynny, rydym yn disgwyl y byddai'r gweithgor wedi'i sefydlu ac y byddai gennym amserlen gytûn ar gyfer cyflwyno cynigion. Ar ôl hynny, byddwn yn rhoi gwybod yn rheolaidd am gynnydd y gweithgor.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ffordd newydd ac arloesol o ddatblygu ac asesu sgiliau bywyd pwysig. Rhagwelwyd y byddai angen ei datblygu ymhellach dros amser. Mae'r darn cynnar hwn o ymchwil yn helpu i bennu cyfeiriad proses ystyriol o adolygu a mireinio. Bydd ei chanfyddiadau a'i hargymhellion yn ein galluogi i esblygu'r cymhwyster yn raddol er mwyn iddo sicrhau'r budd mwyaf posibl i'n pobl ifanc.